# Atodiad 1: Gofynion deddfwriaethol ar gyfer da byw glân adeg eu lladd

Deddfwriaeth benodol sy’n ymwneud â da byw glân adeg eu lladd.

Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd yr UE a ddargedwir (Rhif EC 852/2004, Rhif EC 853/2004 ac EU 2019/627) yn pwysleisio cyfrifoldeb pob gweithredwr busnes bwyd (gan gynnwys gweithredwyr lladd-dai) i gynhyrchu bwyd yn ddiogel drwy gymhwyso arferion hylendid da a gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol ( HACCP).

Mae Rheoliad (CE) a Ddargedwir 852/2004 (H1) yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr busnesau bwyd sy’n magu anifeiliaid, i sicrhau, cyn belled â phosib, lendid anifeiliaid sy’n mynd i’w lladd a, lle bo angen, anifeiliaid cynhyrchu. Mae Rheoliad (CE) a Ddargedwir 853/2004 (H2) yn darparu’r gofynion o ran rheoli hylendid adeg lladd anifeiliaid ac yn nodi y dylai anifeiliaid fod yn ‘lân’ cyn cael eu derbyn i safle’r lladd-dy.

Mae Rheoliad yr UE a Ddargedwir 2019/627, erthygl 11, paragraff 4, hefyd yn cyfeirio at gyfrifoldeb y gweithredwr busnes bwyd i sicrhau bod gan anifeiliaid grwyn glân er mwyn osgoi unrhyw risg annerbyniol o halogi’r cig ffres yn ystod lladd.

## Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, bydd cyfraith yr UE yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â’r rhan fwyaf o gyfraith diogelwch a hylendid bwyd a bwyd anifeiliaid, fel y rhestrir ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon, ac ni fydd cyfraith yr UE a ddargedwir yn gymwys i Ogledd Iwerddon yn yr amgylchiadau hyn.